



LF1217.5 I5 1980  
Archives

Brynley F. Roberts



# Brut Tysilio




ISBN 0 86076 020 0

Coleg Prifysgol Abertawe

LF1217.5 IS 1980

Archives



COLEG PRIFYSGOL ABERTAWE

## BRUT TYSILIO

*Darlith Agoriadol gan Athro y Gymraeg a'i Llenyddiaeth*

BRYNLEY F. ROBERTS, M.A., Ph.D.

*Traddodwyd yn y Coleg  
29 Ionawr 1980*

10 0251766 5

TELEPEN



ABERTAWE

1980

Copiau i'w cael oddi wrth Swyddfa'r Cofrestrwydd, Coleg Prifysgol  
Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP

*Hawlfraint © Brynley F. Roberts 1980*

Cedwir pob hawlfraint. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i gadw mewn sustem adennill gwybodaeth, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu fodd, yn electronig, yn fecanyddol, drwy ffotogopio, drwy recordio, neu unrhyw ffordd arall, heb ganiatâd perchennog yr Hawlfraint ymlaen llaw.

ISBN 0 86076 020 0

*Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion Cyf.  
Gwasg Gomer, Llandysul, Dyfed*



## *Brut Tysilio*

Defod â thras hynafol iddi yw'r arfer o wahodd athrawon newydd y brifysgol i draddodi darlith agoriadol. Mae iddi rai o briod nodweddion aml ddefod arall, megis y gallu i greu anesmwythyd a chynnwrf ym mynwes y sawl sydd â rhan amlwg ynddi, yn ogystal â'r duedd i godi amheuon ynghylch ei diben. Dyma'r achlysur cyntaf, yn ffurfiol o leiaf, a gaiff athro i gyfarch aelodau eraill y coleg a chael cyfle, os myn, i ddatgan ei obeithion a'i fwriadau, i fwrw golwg dros ei bwnc ac athronyddu rywfaint ynghylch ystyr ei ddisgyblaeth, neu i drafod agwedd ar ei ymchwil gan hyderu y byud hynny o ddiddordeb i'r sawl a ddaw i wrando arno. Diau fod y brifysgol yn credu ei bod yn gwneud cymwynas â'r aelod newydd hwn o'i chymdeithas wrth ddarparu cyfle fel hwn iddo; eithr nid y cyfle a osodir o'i flaen a wêl y newyddian yn gymaint ag wynebaw'r lliaws hwnnw sydd wedi rhoi modd iddo ddyfod i'w gadair, fel mai galwad i ostyngeddwydd a diolchgarwch ydyw darlith agoriadol, yn fwy nag achlysur datganiadau mawreddog. Achlysur ydyw pan fydd athro newydd yn sylweddoli mewn gwirionedd personol pwy yw ei ragflaenwyr sydd wedi sicrhau fod iddo etifeddiaeth deg wrth iddo fynd i mewn i'w llafur hwy ac wynebu'r cyfrifoldeb o feithrin a chynnal yr un safonau â hwy.

Yn y cyswllt hwn, y mae athro Cymraeg Coleg Prifysgol Abertawe, mi gredaf, mewn sefyllfa unigryw. Yn feunyddiol, wrth fynd a dod ynghylch amrywiol orchwylion y swydd, af i mewn ac allan o Adeilad Gogleddol y Celfyddydau o dan lygaid craff sefydlydd yr adran, yr Athro Henry Lewis, y pery ei enw'n ddihareb mewn mwy nag un cylch yn y coleg hwn. Cwbl briodol oedd gosod portread ohono uwchben prif fynedfa'r adeilad, oblegid i bawb ohonom sy'n ymwneud ag astudiaethau Cymraeg yn Abertawe, ef yw ein Habraham, 'ein tad ni oll': ysgolhaig manwl, trylwyr, llym ei feddwl, un o'r genhedlaeth honno o arloeswyr a osododd ysgolheictod Cymraeg diweddar ar lwybr sicr. Y mae arnom ni bawb sy'n cael y fraint o weithio yn y maes hwn ddyled iddo, eithr yn fy achos i, dyled uniongyrchol ydyw, oblegid ni allaf anghofio'r modd y trosglwyddodd i mi, y glas ddarlithydd ifanc, hollol ddieithr iddo ef, bentwr o nodiadau pan glywodd fy mod yn

dechrau gweithio yn y maes y bu ef yn efrydu ynddo ar ddechrau ei yrfa yntau. Y mae testun y ddarlith hon heno yn gydnabyddiaeth fechan o'r ddyled honno ac o'r ysgogiad a roes ei gyfrol *Brut Dingestow*<sup>1</sup> imi pan oeddwn yn dechrau ar fy ngwaith. Dilynwyd Henry Lewis gan dri ysgolhaig sy'n parhau i gyfrannu i ddiwylliant a dysg Gymraeg, a phleser digymysg imi yw'r cyfle a gaf i fwynhau cwmni'r Athro Stephen J. Williams a'r Athro T. J. Morgan yma yn Abertawe, a chyfeillgarwch fy rhagflaenydd, yr Athro D. Ellis Evans, yn Rhydychen. Yn y fath gwmni, pa fodd na theimlai dyn yn wylaidd ddiolchgar? Ond cysur yw sylweddoli nad yr athro yw'r adran, oblegid ysgafnhawyd llawer ar feichiau'r swydd a'i chyfrifoldeb gan deyrngarwch, cyfeillgarwch, ac ysgolheictod cadarn fy nghydweithwyr yn yr Adran Gymraeg.

Goddefwch air personol pellach. Gwêl y cyfarwydd fod teitl y ddarlith hon yn adleisio teitl darlith agoriadol y diweddar Athro Thomas Jones yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, wyth mlynedd ar hugain yn ôl.<sup>2</sup> Nid yn ymwybodol fwriadol y bu hynny, ond dichon nad yw'r ffaith heb ei harwyddocâd, oblegid bydd y sylwadau hyn yn arwydd annigonol ddigon o'm dyled i'r ysgolhaig mawr hwnnw.

Dyledion personol yw'r rhain, ond yr hyn a dderbyniasom oll gan ein rhagflaenwyr a'n cydweithwyr yn y coleg hwn, yn y brifysgol hon, ac yng nghymdeithas dysg, yw cred ym mhwystrwydd safonau ysgolheictod, fod yr ymchwil onest a diragfarn am wybodaeth a'r gwir yn rhinwedd ynddi hi ei hunan. Hanes yr anawsterau a gododd mewn ymchwil o'r fath fydd mater y ddarlith hon, a than sylw bydd gwaith awdur a ddangosodd gyn lleied o barch at y gwir fel y mae'n bennaf adnabyddus fel un o'r twyllwyr a ffugwyr mwyaf medrus a mentrus yn hanes ein llên. Lluniodd hwn, Sieffre o Fynwy, lyfr Lladin tua 1136 a honnai adrodd holl hanes brenhinoedd Prydain o ddyddiau dechreuadau pell y genedl wedi cwmp dinas Troia, trwy helyntion y crwydro moroedd a thiroedd, nes cyrraedd yr ynys hon tan arweiniad Brutus, gorwyr yr Aeneas hwnnw a sefydlodd Rufain. Darlunnir hanes helbulus y cyfnod Rhufeinig a'r goresgyniad Seisnig, a'i ddilyn â hynt anorchfygol y brenin Arthur hyd ei ladd mewn rhyfel cartref. Daw'r llyfr i ben tua diwedd y seithfed ganrif gyda brenin y Saeson yn gwisgo hen goron Llundain a fuasai'n symbol o hawl y Brytaniaid i lywodraethu ynys Prydain gyfan, a

Chadwaladr fab Cadwallon, eu brenin diwethaf, yn ffoi i Rufain i dangnefedd ei flynyddoedd olaf: gyrfa'r genedl wedi'i rhedeg, ei hymdrech wedi'i chwblhau, y Brytaniaid hen bellach yn Gymry newydd, ond rhyw awgrym yn aros, i'r sawl a oedd â llygaid i'w ganfod, nad ofer fu'r cwbl ac y deuai eto loywach dydd pan adferid y llywodraeth iddynt. Hanes sy'n rhychwantu'r canrifoedd yw hwn, mae'n stori ysblennydd, yn adroddiad manwl, a bron yn gyfangwbl ddychmygol. Nid oes neb a wad heddiw nad Sieffre ei hun a ddyfeisiodd bron y cyfan o'r digwyddiadau, ac mai ef a luniodd rediad yr hanes. Ffug a dychmygol yw'r hanes hwn.

Ond fel y dywedodd un o'n poëtau ni:

Nes na'r hanesydd at y gwir di-goll

Ydyw'r dramodydd, sydd yn gelwydd oll.

Llwydda'r dychmyg i ddatgelu rhyw wirionedd sydd ddyfnach a mwy gwaelodol na ffeithiau moel. Yr hanes dychmygol hwn a gynhaliodd hunaniaeth y genedl Gymreig trwy gydol yr Oesoedd Canol ac a roes i'r Cymry fynegiant o'u cof. Nid Sieffre a greodd y cof, ond ef a'i gwisgodd gan roi sylwedd hanes, enwau brenhinoedd, olyniaeth arwrol, a fframwaith amser, i ddyheadau digon annelwig. Y mae gan bob cenedl ei myth hanesyddol, yr hanes hwnnw sy'n arwyddocaol, boed wir boed anwir, am ei fod yn cynnig dehongliad ystyrion o'r gorffennol ac yn arwyddbost i'r dyfodol, am ei fod yn cynnal ac yn ysbrydoli. *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy ('Hanes Brenhinoedd Prydain') a gyflawnai'r amcan hwnnw i Gymry'r Oesoedd Canol. Ef a roes ffrâm feddyliol i syniadau dynion am eu tras ac a ddarparodd sail i'w gobeithion am y dyfodol. Dyma un o gampweithiau hanesyddiaeth genedlaethol unrhyw wlad.<sup>3</sup>

Nid yng Nghymru yn unig y gwelir ôl y llyfr rhyfeddol hwn. Un o lyfrau mwyaf dylanwadol hanesyddiaeth Ewrop yn yr Oesoedd Canol ydoedd, oblegid hwn oedd sylfaen pob cronicl a llyfr am hanes Prydain am ryw bedair canrif. Hwn a osodai'r ddelw a oedd ym meddwl pob hanesydd cyn dechrau ysgrifennu; i'r rhan fwyaf ohonynt yr adroddiad hwn oedd yr unig hanes ag awdurdod iddo. Ond yng Nghymru llyfr braint y Brytaniaid oedd yr *Historia* ac un o sylfeini'r ymwybyddiaeth Gymreig. Ni ellir ymwybyddiaeth genedlaethol gadarn heb hanes, oblegid cof cenedl yw hanes. Rhoes Sieffre fynegiant dysg gyfoes i'r cof hwnnw, y cof a oedd yn sicrhau'r Cymry

mai eiddynt hwy fuasai, ac y byddai eto, freintiau llywodraethu ynys Prydain. Y mae amllder y copïau o'r fersiynau Cymraeg o'r llyfr Lladin yn ddrych o'i boblogrwydd gan fod ar gael tua deg a thrigain o gopïau yn ymestyn o'r cynharaf yn hanner cyntaf y XIII ganrif hyd y XVIII ganrif (a hynny heb nodi adysgrifiadau diweddarach). Dechreuwyd paratoi fersiynau Cymraeg o'r *Historia* yn lled fuan ar ôl cyhoeddi'r testun Lladin, a pharhaodd y gwaith hwnnw—cyfieithu, addasu, copïo—dros y canrifoedd gan amlygu cryn weithgarwch yn yr XVI ganrif a'r XVII ganrif, cyfnod a oedd yn ffafriol i hanesyddiaeth Gymreig, ac ymlyniad y Cymry wrth deulu'r Tuduriaid yn peri eu bod yn nes at fywyd y llys a'i ymylon nag erioed o'r blaen. Rhoes esgyniad Iago I i'r orsedd yn 1603 ysgogiad newydd i'r diddordeb yn yr hanes hwn am Frutus a'i ddisgynyddion, y Brytaniaid, yn Lloegr, ond byr fu ei barhad. Y gwir yw fod yr *Historia* a'r hanes traddodiadol erbyn hyn yn annerbyniol yn Lloegr. Yr oedd ambell un wedi amau dilysrwydd yr hanes hyd yn oed yn y XII ganrif, a chafwyd eraill ymhob cyfnod o hynny ymlaen, nes i'r 'ddadl ynghylch Sieffre o Fynwy' gyrraedd ei hanterth yn yr XVI ganrif, ac *Anglica Historia* Polydore Vergil (1534) yn symbol o agwedd ymosodol egr a newydd. Yr oedd hedyn yr amheuaeth yn arbenigrwydd a newydd-deb rhyfeddol yr *Historia* ei hun, ac unwaith y dechreuwyd amau a chodi cwestiynau, ni ellid rhwystro'r duedd, gyda'r canlyniad, oherwydd ymosodiadau rhesymegol a hanesyddol to newydd o haneswyr, fod yr *Historia* wedi marw fel ffynhonnell gydnabyddedig erbyn diwedd yr XVII ganrif.<sup>4</sup>

Hyd yn oed yng Nghymru ni ellid anwybyddu beirniadaeth gwŷr llên a haneswyr ar yr hanes Brutaid, (neu y Brut, oblegid daeth enw sefydlydd y genedl—Brutus—yn enw ar groncl neu hanes ei bobl. Yn syml, ystyr *brut* yw llyfr hanes; yr enw Cymraeg ar *Historia Regum* Sieffre yw Brut y Brenhinoedd). Ond yma yr oedd elfen fwy teimladol yn y ddadl, oblegid o golli'r hanes hwn am Frutus a'i ddisgynyddion, diflannai nid casgliad o chwedlau difyr ond myth cenedlaethol a sail hawl y Cymry i'w hystyried eu hunain yn Frytaniaid, arglwyddi ynys Prydain. Nid rhyfedd i hanes Sieffre ddal yn heini yng Nghymru ymhell ar ôl iddo lusgo byw yn ddim amgen na thestun hynafiaethol i feirdd yn Lloegr. Ond er bod yr ymlyniad wrth yr *Historia* yn y bôn yn beth emosiynol, ac er mai teimlad a oedd yn ysgogi'r

dadleuon, erbyn yr XVII ganrif yr oedd yn amlwg i bleidwyr Cymreig Sieffre nad digon ymateb dall, anfeirniadol. Rhaid oedd cael dynion deallus a chymedrol i chwynnu'r hanes a thynnu allan 'every vain fable, absurd miracle and false prophecy', chwedl Robert Vaughan. Er bod William Wynne yn ei argraffiad o *The History of Wales* yn 1697 yn credu fod sylfaen ddigon dibynadwy i waith Sieffre, ni allai dderbyn popeth a ddywedai. I amddiffynwyr Cymreig yr *Historia* nid *awdur* hanes Brutus a brenhinoedd Prydain oedd Sieffre o Fynwy, eithr golygydd a oedd wedi ailwampio, helaethu ac addurno ei ffynhonnell hynafol. Yr oedd y sail yn sicr hyd yn oed os oedd yr adeilad wedi'i oreuro. Y cam nesaf, felly, oedd ceisio cael gafael ar y ffynhonnell hon fel y byddai modd dangos triniaeth Sieffre ohoni ac fel y gellid gwahaniaethu rhwng ei ehediadau addurnol ef a'r gwir syml.

Nid oedd hyn yn waith mor anobeithiol o anodd ag y gellid tybied, oblegid disgrifiasai Sieffre ei ffynhonnell yn bur fanwl. Yn y cyflwyniad i'r *Historia* dywed ei fod droeon wedi myfyrio yn hanes cynnar Prydain gan ryfeddu nad oedd ar gael lyfr a adroddai hynt a helynt brenhinoedd yr ynys yn y cyfnod cyn geni Crist hyd at y rhai a ddilynodd Arthur.

A minnau'n myfyrio yn y pethau hyn, cyflwynodd Gwallter, archddiacon Rhydychen, gŵr dysgedig yng nghelfyddyd rhethreg a hanes gwledydd tramor lyfr tra hen imi yn yr iaith Frytanaidd, a oedd yn gosod allan weithredoedd ei holl [frenhinoedd] o Frutus, brenin cyntaf y Brytaniaid, hyd at Gadwaladr fab Cadwallon, yn olynol ac mewn trefn, a hynny mewn arddull hynod gain . . . a'r gyfrol hon a ymboenais i'w throsi i'r iaith Ladin.

Cyfeiriodd at y gyfrol hynafol hon eto yn niwedd glo'r *Historia* wrth rybuddio dau o brif haneswyr Lloegr yn ei ddydd, sef William Malmesbury a Henry Huntingdon, i beidio ag ymhél â hanes brenhinoedd y Brytaniaid, 'gan nad yw'r llyfr Brytaneg hwnnw a ddug Gwallter archddiacon Rhydychen o Lydaw (*ex Britannia*) ganddynt, llyfr hanes a gyhoeddwyd yn wir er anrhydedd y penaethiaid hyn ac yr ymboenais innau i'w drosi i'r iaith Ladin'. Cytunir erbyn hyn na ellir derbyn honiad syml Sieffre mai un ffynhonnell sydd i'w waith ac nad yw ef namyn cyfieithydd. Llenor creadigol tra medrus ydyw, gŵr a'i glust yn effro i bob tant yn y llenyddiaeth hanesiol gyfoes, ac yn tynnu ar amrywiaeth eang o ffynonellau, y llyfr

tra hen, o bosibl, yn un ohonynt.<sup>5</sup> Ond yn araf iawn y buwyd yn tyfu i'r farn hon, ac am ganrifoedd mater gwirionedd haeriad Sieffre a oedd wrth wraidd pob trafodaeth ar ei lyfr. Canfod anghysonderau rhwng yr *Historia* a gweithiau'r haneswyr clasurol, drwgdybio gwybodaeth newydd unigryw'r awdur, ymdeimlo â naws lenyddol—gellweirus yn wir—y cyfansoddi, amheuan fel y rhain a arweiniodd at wrthod yr *Historia* a dilorni Sieffre'n dwyllwr diegwyddor. Eithr honiad Sieffre oedd sail awdurdod ei lyfr. Heb y llyfr tra hen gwagedd oedd urddas y genedl. Yr unig ffordd i adfer yr awdurdod hwnnw oedd darganfod y llyfr a gafwyd gan Wallter.

Dyma bwysigrwyd y copïau Cymraeg o'r brut i amddiffynwyr Cymreig Sieffre, oblegid yn eu tyb hwy, yr oedd rhai o'r testunau hyn yn cynrychioli'r gwreiddiol ac yn gallu dangos natur y golygu a'r cyfieithu a gyflawnodd Sieffre. Honnai William Wynne yn *The History of Wales* (1697) na ellid cyhuddo Sieffre o ffugio'r hanes gan fod Gwallter yntau, meddai, wedi trosi'r hen lyfr Brytanaidd i'r Lladin yn gyntaf, ac yna i'r Gymraeg, 'as still may be seen in the Archives of Jesus College Library'. Ac ymhen canrif, yn 1773, yr oedd Thomas Hearne yn amau Moses Williams a ddywedasai mai trosiad o Sieffre oedd 'the British Chronicle in MS in Jesus College Library . . . whereas I always thought that it had been Original to the Latin'.<sup>6</sup>

Nid anodd canfod sail y farn hon fod y gwreiddiol ar gael. Yr hyn a ddywedodd Sieffre yn ei ddiweddglo oedd ei fod yn trosi llyfr Brytanaidd a ddug Gwallter o Britannia, ond mae pob copi Cymraeg o'r brut wedi camddeall a chamgyfieithu hyn gan beri i Wallter ymddangos yn gyfieithydd ('a ddug o Frytaneg') yn hytrach nag yn drosglwyddydd y llyfr ('a ddug o Britannia', *quem Goalterus . . . ex brittania aduexit*).<sup>7</sup> Hynny yw, camgymerwyd enw'r wlad yn enw'r iaith. Cafwyd mwy nag un ymgais i gyfleu'r dehongliad amryfus hwn. Yn anorfod, achosai'r rheidrwyd i briodoli rhyw waith trosi i Wallter gryn ansicrwyd ynglŷn â pherthynas y brutiau Cymraeg â'r llyfr hynafol, yn ogystal ynglŷn â'r iaith yr ysgrifennwyd y llyfr hwnnw ynddi. Effaith y camddeall fyddai creu ym meddwl darllenwyr yr argraff fod mwy nag un math o destun Cymraeg ar gael, y llyfr 'Brytanaidd' hynafol ei hun, trosiad Gwallter ohono o'i Ladin ei hun, a fersiwn Sieffre yn ei wisg Gymraeg. Dyma dair enghraifft o'r cymhlethu dyrys a'r ffordd y

ceisiwyd ymryddhau o'r broblem. Cynnig y brut yn llawysgrif BL Cotton Cleopatra B v (hanner cyntaf y XIV ganrif) yw fod y gwreiddiol yn Lladin, bod trosiad Cymraeg gan Wallter a gyfieithwyd yn ôl i'r Lladin gan Sieffre: yn llawysgrif Coleg Iesu, Rhydychen, 61 (XVI ganrif) dywedir fod y gwreiddiol yn Gymraeg, trosiad Lladin gan Wallter a gyfieithwyd yn ôl i'r Gymraeg ganddo yn ei henaint: yn ôl llawysgrif Mostyn 159 (1586-7) yr oedd y gwreiddiol yn Lladin a cheid trosiad Cymraeg gan Wallter. Fel y gwelir, ni chrybwyllir enw Sieffre yn y ddwy lawysgrif olaf hyn, ac honnant eu bod yn gopïau o lyfr Gwallter. Mae'n amlwg mai'r hyn a oedd wrth wraidd y gred fod gwreiddiol Sieffre, neu os mynner, llyfr Gwallter, ar gael yw ffurfiau amrywiol y fersiynau Cymraeg o'r diweddglo, wrth i'r dryswch a achoswyd gan y camddehongli gymhlethu fwyfwy.

Ochr yn ochr â'r dybiaeth hon fod llyfr Gwallter ar gael yr oedd damcaniaeth arall yn ymfurfio, sef yr honiad mai gwaith Tysilio oedd y llyfr gwreiddiol. Sant hanesyddol o ddiwedd y VI ganrif a dechrau'r VII ganrif oedd Tysilio, ac yn ôl yr achau yr oedd yn llinach brenhinoedd Powys, Brochfael Ysgithrog yn dad iddo, ac felly Cynan Garwyn, y ceir cerdd o fawl iddo yn Llyfr Taliesin, yn frawd iddo. Ni chadwyd buchedd iddo ond nid oes amheuaeth nad ef oedd prif sant Powys yn yr Oesoedd Canol. Canwyd awdl iddo gan Gynddelw, o bosibl yng nghanolfan ei gwlt ym Meifod: ef yw noddwr Llandysilio (Trefaldwyn), Llandysilio-yn-Iâl, Bryneglwys (Dinbych) yn ogystal â llannau eraill ym Môn a Cheredigion.<sup>8</sup> Nid oes gennyf ddim i ychwanegu at astudiaeth feistolgar yr Athro A. O. H. Jarman o dwf y ddamcaniaeth a sut y daethpwyd â hi i sylw Lewis Morris yn y XVIII ganrif.<sup>9</sup> Dengys ef i Richard Morris weld llawysgrif a fenthyciwyd o lyfrgell Llannerch i'r hanesydd Saesneg Thomas Clarke. Paratoes ddisgrifiad ohoni, ac er bod y llawysgrif erbyn hyn wedi diflannu, mae'r dyfyniadau a gododd ohoni yn dangos ei bod yn debyg iawn i frut llawysgrif Coleg Iesu, Rhydychen, 141. Ac fel honno, honnai ei bod hithau yn llaw'r bardd Gutun Owain (ca. 1460-1503). Ceid ynddi bennawd Saesneg nad oedd yn gyfoed â'r testun, fe ymddengys, a briodolai'r gwaith i Dysilio:

. . . written by Tesuljo vab Brochwel Scithrog prince of

Powys, and translated into Latine by Galfridus Arthurius bushop of St. Asaph . . . ,  
geiriau a berthyn, yn ôl yr iaith a'r orgraff, fe ddywedir, i'r XVII ganrif.<sup>10</sup> Er mai Clarke a ddug y llawysgrif hon i sylw Lewis Morris gyntaf, ac mai Morris sy'n bennaf gyfrifol am wthio'r gred mai Tysilio oedd awdur y gwaith, dengys yr Athro Jarman fod tystiolaeth o fwy nag un ffynhonnell i fodolaeth cronicl o ryw fath a dadogid ar Dysilio yn niwedd yr XVI ganrif a dechrau'r XVII ganrif. Awgryma fod cred yn ymfurfio tua diwedd yr Oesoedd Canol fod Tysilio wedi cyfansoddi cronicl, beth bynnag oedd natur hwnnw. 'Nid Lewis Morris na Clarke yw tad y ddamcaniaeth', meddai,<sup>11</sup> eithr priodolid awduriaeth y brut i Dysilio o leiaf erbyn tua 1600. Yr oedd Edward Lhuyd wedi nodi 'LHYV TYSSILIO yn Rhydychen', ac yn 1747 aeth Clarke ymhellach a hawlio mai dau gopi o'r un testun oedd llawysgrif Llannerch ac un o lawysgrifau Rhydychen, sef, a barnu wrth ei ddisgrifiad, Coleg Iesu 61. Dyma'r ddwy ffrwd yn ymgysylltu, y priodoli i Dysilio yn y naill lawysgrif, a diweddglor llall yn honni mai llyfr Gwallter ydoedd. Enw arall i'w osod ar ffynhonnell Sieffre—y llyfr hynafol, llyfr Gwallter, yw *Brut Tysilio* yn awr.

Yr oedd Edward Lhuyd yn ei *Archaeologia Britannica* (1707), td. 265, wedi sylwi ar ddau fath o destun o'r brut, y rhai a ddilynai Sieffre, a rhai eraill, braidd yn ddiarddurn, a gynhwysai enw Gwallter. Cyffelyb oedd dosbarthiad Lewis Morris, testunau hirion Sieffrêaidd, a rhai byrion ag enw Gwallter wrthynt a gynrychiolai'r gwreiddiol, sef *Brut Tysilio*. Trwy graffu ar y fersiynau byrion hyn gellid canfod craidd yr hanes ac ynysu addurniadau ac ychwanegiadau Sieffre. Yng ngeiriau Richard Morris yn ei ddisgrifiad o *Brut Tysilio* Llannerch:

It is to be taken notice of, that this Book hath very few of ye marvellous stories mentioned in Galfrid, and of the Speeches of ye Kings & Generals, which makes it very suspicious that these things were the productions of Galfrid's own brains, and are not to be imputed to Tysilio ye orrig. author.<sup>12</sup>

O ddiosg y dychmygion hyn, ymddangosai'r gwaith yn llawer mwy credadwy. Fel y dywedodd Peter Roberts yn 1811:

the original is a plain and simple narrative . . . the history will be regarded with more favour than it has been, when it

is seen how much has been contended for and opposed, that had no real foundation in the history, but was the result of the mistakes or mistranslations of Geoffrey of Monmouth or Walter, or of the copyists.<sup>13</sup>

Dyma gyflawni dyhead Robert Vaughan ac amddiffynwyr eraill y brut yn yr XVII ganrif, i ddileu o'r hanes y 'vain fables' gan adael ar ôl y gwirionedd dilwgr yn weddill. Pan gyhoeddwyd y ddau fath o destun yn y *Myvyrian Archaeology of Wales* yn 1801, y naill dan enw Tysilio a'r llall dan enw Gruffudd ab Arthur (cynnig y golygyddion i drosi 'Galfridus Arthurius') rhoddwyd parchusrwydd a gwarant print i'r ddamcaniaeth. Yr oedd Tysilio'n gymeriad mor hanesyddol â Galfridus, yr oedd y naill yn awdur mor ddilys â'r llall. Hawdd y gellid tybio fod y mater wedi'i gau. Yr oedd awduriaeth Tysilio o'r 'short or Llanerz Copy' mor gadarn a sicr ag awduriaeth Sieffre o'r 'diffuse copy'.<sup>14</sup>

Testun llawysgrif Coleg Iesu 61 (mewn copi diweddarach ohoni, llawysgrif Coleg Iesu 28) a gyhoeddwyd yn y *Myvyrian Archaeology*. Yn 1811 cyhoeddodd Peter Roberts gyfieithiad Saesneg o'r testun hwn, ond gan gyfuno ag ef ddarlleniadau o gopïau eraill, yn fwyaf arbennig Llyfr Du Basing, llawysgrif arall yn rhannol yn llaw Gutun Owain, yr honnai Roberts ei bod yn debyg iawn i frut y *Myvyrian*. I ysgolheigion digymraeg, y cyfieithiad hwn o destun cyfansawdd oedd *Brut Tysilio*, y gellid tybied ei godi o Lyfr Du Basing; a chofier mai un o lawysgrifau Gutun Owain oedd hon, nid llawysgrif ddiennw o'r XVI megis Jesus College 61, ffaith a ychwanegai dipyn at ei hawdurdod. Trwy gyfrwng trosiad Almaeneg Albert Schultz (San-Marte) o Saesneg Peter Roberts yn ei argraffiad ef o'r *Historia* yn 1854<sup>15</sup> ailgynheuwyd fflamau'r dadl.

Ni chredai San-Marte mai gwaith Tysilio o'r VII ganrif oedd y brut hwn oblegid gwelai nodweddion ynddo a barai na allai yn ei farn ef fod yn gynharach nag ail hanner yr XI ganrif, ond credai, er hynny, ei fod yn cynrychioli hanfod y llyfr hen, ac oherwydd hynny ei fod yn waith a haeddai ystyriaeth fanwl yn ddogfen hanesyddol ddilys. Tynnodd nyth cacwn am ei ben ac aeth amryw i'r afael â'i ddadleuon, Friedrich Zarncke yn 1863, Bernhard ten Brink yn 1868, R. H. Fletcher yn 1906.<sup>16</sup> Ac yna bu tawelwch am rai blynyddoedd nes i'r archaeolegydd adnabyddus Syr Flinders Petrie ailagor yr holl fater mewn

darlith syfrdanol gerbron yr Academi Brydeinig yn 1917. Yn y ddarlith hon, 'Neglected British History',<sup>17</sup> aeth ymhellach nag odid neb o'i flaen gan honni fod *Brut Tysilio* wedi'i sylfaenu'n rhannol ar gofnodion Prydeinig o'r ganrif gyntaf A.D. a ddisgrifiai ymosodiad Wl Cesar ar Brydain. Yr oedd i *Brut Tysilio* (ar wahân i rai rhannau rhamantaidd, storiol) dras a phwysigrwydd cyferth ag adroddiadau'r haneswyr Rhufeinig: ceid felly ddau adroddiad cyfochrog, o safbwyntiau cenedlaethol gwahanol, o'r un digwyddiadau.

Yr un seiliau sydd i ddadleuon San-Marte yn 1854 a Flinders Petrie yn 1917. Eu man cychwyn yw eu cred ddiysgog yn nilysrwydd honiad Sieffre yn ei ddiweddglo, ei fod yn trosi hen lyfr a gawsai gan Wallter, a'r hyn a ddywedid yn niweddglo *Brut Tysilio*, 'Myfi Gwallter Archiagon Rydychen a droes y llyfr hwnn o Gymraeg yn Lladin. Ac yn vy henaint y troes i ef yr eilwaith o ladin ynghymraec'. Ânt ati i gyfiawnhau'u cred trwy graffu ar wahaniaethau rhwng Tysilio a Sieffre gan geisio dangos fod rhai ohonynt yn profi blaenoriaeth y naill ar y llall. Sylwodd San-Marte ar hynodion megis cyfatebiaethau rhwng yr esboniadau Cymraeg ar enwau priod a'u hepithetau, fod addurniadau llenyddol megis llinellau mydryddol gan Sieffre lle y ceid rhyddiaith gan Dysilio, nad oedd Proffwydoliaeth Myrddin gan Dysilio a bod Sieffre ei hun yn awgrymu mai ychwanegiad ydyw yn ei *Historia*, a bod adrannau cyfain (megis *Cyfranc Lludd a Llefelys*, adar Caerfuddai, gwyrthiau Sant Awstin yng Nghaint) wedi'u hepgor gan Sieffre fel chwedlau anhanesyddol. O'i ran ef, gosodai Petrie bwys ar natur yr hyn a gynhwysai neu a hepgorai'r naill destun a'r llall; nododd fanylion cronolegol a geid gan Dysilio na weddai i arddull lenyddol Sieffre, ond benthgyiadau o haneswyr cydnabyddedig yn Sieffre nas ceid yng ngwaith Tysilio. Meddai,

The test of inclusion and omission confirms . . . that Geoffrey is a flowery expansion, rather than Tysilio being an abbreviation . . . Had Geoffrey not so largely dressed up the chronicle of Tysilio as literature, it would have stood a much better chance of a hearing as history; and when once Geoffrey became discredited by his method, he impaired reliance on his source.<sup>18</sup>

Dyma'n union gasgliad Peter Roberts ganrif ynghynt. Fel y gwelir, nid ydym wedi symud gam o gasgliadau hynafiaethwyr traddodiadol yr XVII ganrif. Er gwaethaf y cynnydd yng ngwybodaeth amddiffynwyr newydd Sieffre, prin eu bod wedi ychwanegu dim at waith eu rhagflaenwyr.

Fel y gwrthwynebodd Zarncke a ten Brink ddaliadau San-Marte, felly hefyd y codwyd gwrthddadleuon i ddarlith Petrie gan R. W. Chambers a Felix Liebermann.<sup>19</sup> Hawdd ddigon oedd iddynt ddangos natur oddrychol tystiolaeth Petrie a San-Marte ac fel y gellid ei dehongli mewn ffordd wahanol gan dynnu casgliadau hollol groes, mai *Brut Tysilio* sy'n talfyrru Sieffre yn hytrach na'i fod ef yn chwyddo'i ddeunydd. Er gwaethaf eu dysg a'u swyddi academiaidd, y gwir yw mai anysgolheigaidd oedd eu dull gan mai'r hyn a wnânt yw derbyn gwirionedd gosodiad heb geisio ei archwilio: cyflwynant eu dadleuon ar sail yr union beth yr oedd angen ei brofi. Nid ymchwil am wirionedd ydyw yn gymaint â rhesymoli ffydd. Dangosodd Liebermann mai cefndir diwylliannol y XII ganrif sydd i'r brut fel i'r *Historia*, ond ei brif ddadl ef a Chambers yw'r un destunol. Y mae rhai gosodiadau yn *Brut Tysilio* na allant fod yn amgen na ffrwyth camddeall Lladin Sieffre.<sup>20</sup> A chan fod modd canfod cyfatebiaethau geiriol rhwng Lladin Sieffre a gwaith Gildas, Beda a 'Nennius', rhaid mai Lladin oedd iaith ffynhonnell Sieffre, nid 'iaith Frytanaidd' fel yr haerai ef. Os nad oedd Gildas, Beda a 'Nennius' oll wedi benthgy o Dysilio (a hynny yn yr un trosiad Lladin), rhaid oedd casglu mai trwy Sieffre y cafwyd yn y brut y defnydd cyfunol arbennig hwn o destunau hanes.

Cafwyd ymgais lew i achub cam Petrie yn 1929 gan yr Americanwr Acton Griscom<sup>21</sup> a dreuliodd ryw ddau gant o dudalennau yn codi gwrthddadl ar wrthddadl yn erbyn beirniaid Tysilio. Llwyddodd i gywiro llawer o wallau ffeithiol am yr hyn a ddywedwyd am lawysgrifau *Brut Tysilio*, yn arbennig honiad cwbl anghywir a di-sail golygyddion y *Myvyrian Archaiology* mai o Lyfr Coch Hergest y tynnwyd eu copi hwy, camsyniad a roddasai lawer gormod o fri a hynafiaeth i'r testun, ond mae'n amheus a lwyddodd i gynnal ei achos fod rhai cronicleu Cymraeg, er nad oeddynt yn gopïau o'r llyfr hen ei hun, eto yn annibynnol ar Sieffre ac yn cynnwys deunydd traddodiadol.<sup>22</sup> Nid ffynhonnell Sieffre a oedd yn



*Brut Tysilio*'r *Myvyrian Archaiology* (llawysgrif Coleg Iesu 61) ond gallai fod yn ffrwyth ailwampio fersiwn hŷn. Yr oedd dysg a darllen Griscom yn eang ond o dan ei eiriogrwydd a'i ailadrodd, ei fanylder a'i ddiwydrwydd, prin fod yma unrhyw ddadl newydd, oblegid ganddo ef, fel gan Robert Vaughan, William Wynne, Lewis Morris, Peter Roberts, San-Marte, Flinders Petrie, ymgais i gyfiawnhau'i ffydd yn nilysrwydd y ddau ddiweddglo, un Sieffre a'r un yn llawysgrif Coleg Iesu 61, yw'r holl ddadleuon.

Nid ar hyd llwybr datganiadau paragraffau olaf y brutiau Cymraeg yr oedd datrys cwestiwn eu perthynas ag *Historia* Sieffre,<sup>23</sup> oblegid fel y ceisiwyd dangos, unwaith y gafaelwyd ym mhen chwithig y pren hwnnw âi'r cyfieithwyr a'r copiwyd ddyfnach ddyfnach i gors cymhlethdod. Dau lwybr ymwared oedd, y naill yn llenyddol a'r llall yn destunol: dadansoddi'r *Historia* Ladin fel y gellid olrhain ei ffynonellau a'i chynseiliau llenyddol er mwyn adnabod Sieffre fel llenor ymwybodol. Y llwybr arall oedd archwilio'r holl lawysgrifau Cymraeg a gynhwysai destunau a ymdebygai i'r *Historia*, adnabod y fersiynau, olrhain eu tras. Man gwan yr holl drafodaethau ar y manylion sydd yn y Gymraeg a heb fod yn y Lladin, neu ar ffynhonnell Sieffre, neu ar wahaniaethau o natur hollti blew rhwng y ddau destun, yw cyn lleied o sylw a roed i natur cyfieithu yn yr Oesoedd Canol fel esboniad ar ddiffyg cyfatebiaeth y Gymraeg â'r Lladin, y talfyrru a'r helaethu.<sup>24</sup> Ac ni thrafferthodd odid neb i edrych ar *Brut Tysilio* yn ei berthynas â thestunau Cymraeg eraill.<sup>25</sup> Nid cwestiwn i haneswyr yw cyswllt *Brut Tysilio* a Sieffre; problem beirniadaeth destunol Gymraeg ydyw.

Y mae cytundeb erbyn hyn fod y copïau Cymraeg o *Brut y Brenhinoedd* yn ffurfio chwech neu saith o ddsbarthiadau. Perthyn y tri fersiwn cynharaf, sef tri chyfieithiad annibynnol o'r *Historia*, i'r XIII ganrif—Brut Dingestow, llawysgrif Llansteffan 1, llawysgrif Peniarth 44. I'r ganrif ddilynol y perthyn y fersiwn a geir yn Llyfr Coch Hergest (nad yw ond cyfuniad o hanner Brut Dingestow a hanner fersiwn Llansteffan 1), y fersiwn sydd yn llawysgrif Peniarth 21, a'r fersiwn sydd yn y ddwy lawysgrif BL Cotton Cleopatra B v a Llyfr Du Basing. Fersiwn diddorol iawn yw'r olaf hwn, yn ei gynnwys a'i arddull. Trosiad o'r *Historia* ydyw (yr unig un Cymraeg sy'n cynnwys llythyr cyflwyniad Sieffre ar y

dechrau), ond er hynny, hepgorir llawer o fanylion ac y mae'n talfyrru drwodd. Ond ar y llaw arall, mewn amryw o fannau mae'r cyfieithydd wedi ail-lunio hanesyn a digwyddiad er mwyn iddynt gael mwy o effaith storiol a boddhau'r darlennydd i fwy graddau yn llenyddol. O'r traddodiad Cymraeg y daw rhai o'r cyfnewidiadau hyn, megis epithetau rhai o'r cymeriadau, *Cyfranc Lludd a Llefelys*, manylion o *Breuddwyd Macsen*, ond y mae eraill, megis hanes adar Caerfuddai, gwyrthiau Sant Awstin, tarddiad siroedd Essex, Sussex a Wessex, ar gael mewn testunau Ffrangeg a Saesneg, megis brutiau Wace a Layamon. Trwy'r fersiwn ceir dyfyniadau o ryw gronoleg a chronicl Rhufeinig, cyfeirir at Theophilus yr Ysgolhaig ac athronwyr Groeg, a chynhwysir hefyd y gofeb Ladin fydryddol a oedd gynt ar feddrod Arthur yn abaty Glastonbury. Mae'r cyfan yn awgrymu fod yma ŵr o ddiwylliant—y diwylliant Cymraeg, diwylliant Arthuraidd y cyfandir, a'r diwylliant Lladinaidd cyfoes. Pa faint o'r defnyddiau ychwanegol hyn a oedd eisoes wedi'u corffori yn y testun Lladin a drosai, anodd gwybod, ond ni ellir llai na chredu fod llawer o'r 'golygu' hwn yn weithgarwch y cyfieithydd Cymraeg ei hun. Trwy gyfieithu'r *Historia*, ei gyfaddasu a'i gyfuno â thestunau eraill, lluniodd yr awdur hwn ffurf gwbl arbennig ar waith Sieffre.

Iawn yw rhoi iddo'r teitl 'awdur', oherwydd nid hwn oedd ei unig gyfraniad i lenyddiaeth hanesiol Gymraeg. Mae'n bur debyg, a barnu wrth rai hynodion arddull a geirfa, mai'r un gwŷr a oedd yn gyfrifol am y fersiwn arbennig o *Brut y Tywysogion* sy'n ddilyniant i'w waith yn y ddwy lawysgrif hyn. Dyma'r fersiwn a elwir *Brenhinedd y Saeson*, testun arall sy'n gyfuniad o fwy nag un ffynhonnell.<sup>26</sup>

Gallwn ddychwelyd yn awr at *Brut Tysilio*'r *Myvyrian Archaiology*. I hanner cyntaf yr XVI ganrif y perthyn y llawysgrifau hynaf o'r fersiwn hwn, mae olion diweddarwch yn yr iaith, a nodwedd arall ynddo yw ei fod ar brydiau yn llai urddasol ei awryglch, a'i fod yn symud ychydig o naws sifalriaidd llysoedd Sieffre. Ond ar wahân i hyn oll, nid fersiwn newydd o *Historia* Sieffre sydd yma, eithr cyfuniad wedi'i seilio ar ddau gyfieithiad Cymraeg cynharach. Nid wyf yn sicr o ffynhonnell y paragraffau cyntaf, ond yna, hyd at lythyr Caswallon at Wl Cesar, ffurf ar fersiwn Peniarth 44 yw *Brut Tysilio*. Mae yma gamsyniadau, talfyrru, diweddarau, ond ceir

yn ogystal nifer o ddarlleniadau na ddigwydd ond yn fersiwn Peniarth 44. Nid llawysgrif Peniarth 44 yw'r sail, ond y trosiad sydd yn y llawysgrif honno. Mae yma adleisiau yn hanes y brenin Llŷr ac yn *Cyfranc Lludd a Llefelys* o fersiwn Cotton Cleopatra B v, a hwnnw yw sail *Brut Tysilio* o ddiwedd llythyr Caswallon hyd ddiwedd y llyfr. Yma eto mae arwyddion fod y golygydd wedi defnyddio mwy nag un testun a'i fod yn hepgor neu'n ychwanegu manylion. Ni cheir yma Broffwydoliaeth Myrddin, ac ni chynhwysir ychwaith gronoleg Cotton Cleopatra na gosodiadau dysgedig hwnnw, ond y mae ei ddibyniaeth ar y ddau drosiad cynharach yn eglur. Ni all hawlio dim o'r arbenigrwydd a osodai'r copïwyr arno neu a honnid mor frwd a thaer gan Lewis Morris ac eraill yr wyf wedi sôn amdanynt. Ni ellir ei ystyried mewn unrhyw ystyr yn ffynhonnell Sieffre, nac yn ffurf ar y ffynhonnell honno. I'r gwrthwyneb, saif *Brut Tysilio* ar ddiwedd datblygiad a ddechreuodd gyda'r trosiadau Cymraeg cynharaf o'r *Historia*, sef parodrwydd cyfieithwyr i dalfyrru eu gwreiddiol, i ychwanegu ato ac i'w gyfaddasu a'i gyfuno â thestunau eraill, y nodweddion hynny a gysylltir mor gyffredin â chreffft cyfieithu yn yr Oesoedd Canol.<sup>27</sup> Gwelir y nodweddion hyn yn egino yn fersiynau'r XIII ganrif: cyrhaeddant benllanw yn fersiwn Cotton Cleopatra y mae talfyriad ohono yn *Brut Tysilio*. Saif hwn ar ddeufor cyfarfod dau gyfnod. Mae'n gyfansoddiad dienw sy'n adlewyrchu patrwm cyfarwydd hanes Prydain fel y'i gosodwyd gan Sieffre o Fynwy, a hwn yw'r fersiwn Cymraeg canoloesol olaf o'r hanes hwnnw. Prin y gall fod yn gynharach na'r XV ganrif.

Canrif ddigon cythryblus fu honno ar lawer cyfrif, ond cyfnod er hynny pan ddyfnhaodd yr ymwybod cenedlaethol yn ddirfawr a phan feddyliai'r beirdd, a llawer o'u noddwyr, yn fwy ymarferol wleidyddol nag a wnaethant ers llawer dydd. Ail hanner y ganrif yw oes y cywydd brud a broffwydai ddychweliad y mab darogan i ennill eto goron Llundain, a phan oedd y beirdd yn fyw i holl bosibiliadau dyrchafu uchelwyr penodol. Ond er bod y daroganau hyn yn gyfryngau gwleidyddol gwirioneddol, fel y mae'r Athro Glanmor Williams wedi'n hatgoffa,<sup>28</sup> yr oeddynt yn effeithiol am mai yn y myth Brytanaidd hanesyddol yr oedd canfod eu grym a'u hystyr: ac yn y brut y ceid mynegiant i'r myth hwnnw. Yr hanes Sieffrëaidd hwn a fuasai'n sail yr hyder a oedd wedi

cynnal llawer un yn y dydd blin ar ddechrau'r ganrif pan oedd Siôn Cent yn 'gobeithiau a ddaw'. Wrth lunio copi o'r hanes hwn y canfu Hywel Fychan, copiwydd Llyfr Coch Hergest, ar droad y ganrif, esboniad ar boen a thlodi ei ddydd ei hun,<sup>29</sup> ac erbyn tua chanol y ganrif ymwybod â'r gwrthgyferbyniad chwerw rhwng uchel dras y genedl a'i gorchestion gynt, a'i chyflwr adfydus presennol a arweiniodd 'golygydd' y Cwta Cyfarwydd o Forgannwg i fyfyrion yn hanes Cymru a'r daroganau.<sup>30</sup> Yr oedd y beirdd, a oedd erbyn hyn yn fynych yn gopiwy'r llawysgrifau, yn gyfarwydd â chynnwys y brut, a hwy hefyd, fe ddichon, a gyfrannai addysg a hyfforddiant i'w noddwyr, yr uchelwyr, a oedd yn graddol ddatblygu'n ddsbarth o weinyddwyr sirol a lleol. Ond dosbarth cyfoethog a diwylliedig oedd y boneddigion hyn yn ogystal, ac y mae pob arwydd eu bod, megis y dosbarth canol newydd yn Lloegr, yn tyfu'n fwyfwy llythrennog. Ar eu cyfer hwy y dechreuir yn y cyfnod hwn lunio'r llawysgrifau amrywiol a chyfoethog eu cynnwys, ac y dechreuant hwythau gynnull llyfrgelloedd. Da y disgrifiwyd canu beirdd yr uchelwyr yn 'ganu dysgedig i bobl ddsygedig gan wŷr dysgedig'.<sup>31</sup>

Y mae arwyddocâd arbennig, yn wleidyddol ac yn ddiwylliannol, i'r darluniau cyfarwydd o'r bardd a'i noddwr yn cyd-ddarllen hanes. Yn y XIV ganrif soniai Llywelyn Goch Amheurig Hen am 'darllen cyfraith, rugliaith raid, a Brut hen y Brutaniaid', a chofir, yn y ganrif ddilynol, fel y bu Guto'r Glyn a Rhys ap Siancyn o Lyn Nedd yn 'bwrw rhif . . . brenhinoedd bro ein hynys', a Lewis Glyn Cothi'n 'mynegi . . . ystoriau Brutus o Dro' ac yn 'darllen ystoria wellwell, Hanes . . . achau'r ynys a'i chronig'. Er mai yng nghyd-destun dysg y beirdd y cyfeiria Gruffydd ap Ieuan ap Llywelyn Fychan at ddarllen ystoria, ef sy'n egluro'r cymhelliad amlycaf wrth sôn am 'llyfre diben [sef diwedd] yn penyd'. Diddordeb a rennid gan y bardd a'i gynulleidfa oedd hyn, oblegid os oedd Guto'r Glyn yn cyfeirio ato ef ei hun yn *ysdoriawr*, gallai Gutun Owain gofio am Robert Trefor, 'ysdoriawr oedd O'n heniaith a'n brenhinoedd'.<sup>32</sup> Tybed ai dyma gefndir *Brut Tysilio*, a'i fod yn fersiwn hwylus o'r hanes ar gyfer addysg beirdd ac uchelwyr? Cyfyd o'r ymwybod cenedlaethol a gwleidyddol, yn fynegiant o seiliau'r canu brud.

Parheir i gopiö fersiynau eraill o'r brut trwy gydol y XV ganrif ac i edrych i gyfeiriad Caer Droia. Mae'n arwyddocaol

ei bod yn fwy cyffredin gweld rhagflaenu copïau o *Brut Tysilio* gan *Dares Phrygius* na'u dilyn gan ryw ffurf ar *Brut y Tywysogion*. Er hynny, mae croniclau amrwd a rhestri o enwau brenhinoedd megis *O oes Gwrtheyrn*, *Brut y Saeson*, *Teyrnasedd y Saeson*, a nifer o rai eraill, yn dod yn amlycach, ac o hyn ymlaen, ac fel yr â'r ganrif nesaf rhagddi, gwelir estyn croniclau ac *annales* i fod yn ddogfennau cyfoes, byddent mor elfennol ag y bônt. Y mae Gutun Owain yn dangos y ffordd yn llawysgrif Coleg Iesu 141 ac yn adlewyrchu'r hyn a ddigwyddai yn Lloegr lle yr oedd croniclau'n ymestyn o greu'r byd hyd at gyfnod yr ysgrifennu yn dal yn boblogaidd, a llyfrau hanes naratif megis y *Brut* a *Chroniclau Llundain* yn ennill bri.<sup>33</sup> Dyma ddatblygiad a ddaw'n eglurach yn yr XVI ganrif yng Nghymru wrth i brydyddion a gwŷr bonheddig fel ei gilydd roi cynnig ar lunio llyfr hanes, cyffredinol neu leol. Ni chyll yr hanes Troianaidd ei afael, ond fwyfwy caiff ei gwtogi i fod yn rhagymadrodd i hanes diweddar. Os yw *Brut Tysilio* yn ganoloesol ei ogwydd, yn ei natur dalfyredig a'i arddull fwy cyfoes dengys y cyfeiriad newydd.

Seiliwyd *Brut Tysilio* ar ddau fersiwn Cymraeg o'r *Historia*. Lluniwyd ef; felly, mewn man lle'r oedd y ddau fersiwn hynny ar gael. Mae llawysgrif Peniarth 44 yn yr un llaw â llawysgrif Llansteffan 1, a'r un gŵr hwnnw a gopiodd destun y cyfreithiau sydd yn llawysgrif BL Cotton Caligula A III. Er mor dameidiog y dystiolaeth (na ellir ei chrynhoi yma) ymddengys fod gennym le i ddal mai mewn *scriptorium* yng ngogledd-ddwyrain Cymru y gweithiai ef. Tŷ crefydd go arbennig fyddai hwn, lle y ceid testunau hanes a chyfraith, a chopio o safon uchel. Yr enwau sy'n ymgynnig yw Dinas Basing, Glyn-y-groes (Llanegwestl), Ystrad Marchell. Yn y ganrif ddilynol gwelir ôl llaw rhyw gopiwydd arall yn copio brutiau llawysgrif Cotton Cleopatra B v a rhannau diweddaraf *Brut y Tywysogion* yn llawysgrif Peniarth 20, a chopiwydd arall yn copio Peniarth 20, sy'n cynnwys testun hanes arall, *Y Bibyl Ynghymraec* a'r Gramadeg, yn ogystal â *Brut y Tywysogion*, a thestun *Dares Phrygius* llawysgrif Cotton Cleopatra. A gaf fi ddyfynnu Thomas Jones?

The main texts of Peniarth MS.20 and the *Dares Phrygius* of BM. Cotton MS. Cleopatra B v, copied by the same scribe, and the continuation of the Peniarth MS. 20 Brut, along with the *Brut y Brenhinedd* and the *Brenhinedd y Saesson* of the

Cotton MS., all copied by another scribe, seem to be the products of the same scriptorium.

Mae tystiolaeth mai yn abaty Glyn-y-groes y lluniwyd cofnodion brut Peniarth 20 am y blynyddoedd 1282-1332, ac awgrym cryf mai yno y gwelodd Gutun Owain y llawysgrif yn y XV ganrif. Awgryma Thomas Jones ymhellach

that the MS. was copied by someone who was more preoccupied with place-names in Powys or central Wales than with those either of North or South Wales. This again adds a little more weight to the suggestion that the scriptorium was that of Valle Crucis.

Llawysgrif arall sy'n cynnwys testunau tebyg iawn i frutiau Cotton Cleopatra yw Llyfr Du Basing, rhan helaeth ohoni yn llaw'r bardd Gutun Owain, copiwydd testunau hanes o fwy nag un math mwyaf diwyd ei ddydd, a bardd a oedd â chysylltiad agos iawn, efallai â Dinas Basing, ond yn fwy arbennig â Glyn-y-groes lle y bu ei ewythr Siôn ap Rhisiart yn abad am tua deng mlynedd ar hugain.

Ai cyd-ddigwyddiad yw hyn oll,—fod dau gyfieithiad o *Historia Sieffre* i'w cysylltu â'r ardaloedd hyn yn y XIII ganrif, fod llawysgrifau hanes pwysig (Cotton Cleopatra B v, Peniarth 20) i'w lleoli yma yn y XIV ganrif, mai yma y bu gweithgarwch gŵr o ddiddordebau Gutun Owain yn y XV ganrif? Ac yn yr un ganrif dyma *Brut Tysilio* yn ymddangos, yn pwysu ar yr union destunau hyn. Ai gormod honni ein bod yn ymwneud â mynachlog yng ngogledd Powys a oedd â thraddodiad hir o gyfieithu, copio, golygu, ac astudio testunau hanes a dysg? Mae Dr. David Dumville<sup>34</sup> wedi galw sylw at destunau hanes a nodiadau Cymreig tra diddorol arnynt mewn dwy lawysgrif o fynachlog Sistersaidd Sawley yn yr hen swydd Efrog. Awgryma mai ymfudiad grŵp o Gymry o gyffiniau'r hen sir Fflint yn y XII ganrif sy'n gyfrifol am y gweithgarwch hanesiol trylwyr hwn. Bid a fo am hynny, dyma dŷ, Glyn-y-groes efallai,<sup>35</sup> a gynhyrchodd fersiynau Cymraeg o *Historia Sieffre* o Fynwy, fersiwn o *Brut y Tywysogion*, cyfansoddiadau megis brutiau Cotton Cleopatra B v, tŷ lle y ceid, o bosibl, gopi o un o lyfrau hanes mwyaf poblogaidd y dydd, *Polychronicon* Ranulph Higden.<sup>36</sup> Cyfieithwyd saith pennod gyntaf y *Polychronicon* dan y teitl *Disgrifiad o Ynys Prydain* yn y XV ganrif, ac y mae'r traddodiad llawysgrifol yn gryf o blaid credu mai i'r cyffiniau

hyn y perthyn y gwaith. Dyma gyd-destun *Brut Tysilio*, ac ymhen canrif neu lai o'r un ardaloedd hyn y daw i'r amlwg enwau megis Ellis Gruffydd, Gruffydd Hiraethog, Hywel ap Syr Mathew, Syr Thomas ab Ieuan ap Deicws, a Roger Morys. Dyma wlad, yn ôl Dr. Enid Roberts, a oedd yn hynod am gyfoeth arbennig ei diwylliant,—'diwylliant yn ystyr eang y gair, nid diwylliant barddol yn unig—bro neu ardal nad gormodiaith honni mai ynddi hi yr oedd diwylliant cyfoethocaf Cymru bum can mlynedd yn ôl'.<sup>37</sup> Ymddengys imi fod i'r cornelyn hwn o Bowys le anrhydeddus yn hanes datblygiad ein rhyddiaith.

Prif sant Powys yw Tysilio. Meifod yw canolfan y cwlt ond da cofio mai ym mhlwyf Llantysilio y saif Llanegwestl heddiw ac mai eiddo abaty Glyn-y-groes oedd yr eglwys honno. Â'i enw ef y cysylltir y gerdd a elwir *Ymatreg Llywelyn a Gwrnerth*, cyfres o englynion a chefnidir stori a moeswers fuddiol iddi a geir yn Llyfr Coch Hergest. Nid ef oedd yr awdur, ond ef a'u 'cafaf . . . y gan wrnerth'. Mae'r ymgais hon i osod awdurdod enw Tysilio ar y gerdd yn ddealladwy pan gofir mai â'r Trallwng ym Mhowys y cysylltir y ddau sant, Llywelyn a Gwrnerth. Cymhelliad cyffelyb, ond odid, a oedd ym mryd y sawl a dadogodd frut ar Dysilio, sef awydd i roi awdurdod i'r testun trwy'i briodoli i ryw ffigur o fri o'r gorffennol, yn yr achos hwn prif sant y dalaith, ac un y crybwyllid enw ei dad yn yr hanes. Nid oes sail hanesyddol i gyswllt Tysilio â'r cronicl sy'n dwyn ei enw, ond yr oedd yn briodol dwyn y ddau ynghyd os cywir yr awgrym mai i Bowys y perthyn y gweithgarwch hanesiol hwn.

Ffug yw'r cyswllt â Thysilio. Ffug hanes yw *Historia* Sieffre o Fynwy, a'r hyn a geisiwyd ei wneud heno oedd olrhain hanes yr ymgais i geisio awdurdod i'r ffug hwnnw. Ond nid twyll ydoedd gwaith Sieffre, oblegid yr hyn sydd ynddo yw ymateb creadigol i orffennol cenedl. Mae ceisio'r gwirionedd trwy ymchwil a dysg yn weithgarwch hanfodol pob adran yn y Brifysgol, ond mae i Adran Gymraeg wedd arbennig ar y swyddogaeth honno,—meithrin, trwy gyfrwng ei dysg, ymateb didwyll, cadarnhaol, a hyderus, i briod nodweddion iaith a llên a hanes yr un genedl honno yn yr argyfwng sy'n ei hwynebu yn ein dyddiau ni.

## Nodiadau

<sup>1</sup>Henry Lewis, gol., *Brut Dingestow*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1942.

<sup>2</sup>Thomas Jones, *Brut y Tywysogion*, Darlith agoriadol a draddodwyd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 12 Tachwedd 1952, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1953.

<sup>3</sup>Gw. J. E. Caerwyn Williams, yn Dewi Eurig Davies, gol., *Gwinllan a roddwyd*, Llandybie, Christopher Davies, 1972, 76-77. Ceisiais awgrymu cyswllt Sieffre o Fynwy â hanes traddodiadol Cymru yn 'Geoffrey of Monmouth and Welsh Historical Tradition', *Nottingham Medieval Studies*, XX, 29-40.

<sup>4</sup>Ar y ddadl hon gw. T. D. Kendrick, *British Antiquity*, London, 1950, Ernest Jones, *Geoffrey of Monmouth, 1640-1800*, University of California Studies in English, V, no. 3, 1944, A. O. H. Jarman, 'Y Ddadl ynghylch Sieffre o Fynwy', *Llên Cymru*, II, 1-18. Ceisiais drafod ymlyniad y Cymry wrth y Brut yn *Brut y Brenhinedd*, Dublin, 1971, 55-74, 'Ymagweddau at Brut y Brenhinoedd hyd 1890', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, XXIV, 122-38.

<sup>5</sup>Gw. astudiaethau megis J. S. P. Tatlock, *The Legendary History of Britain*, Berkeley, 1950. Rhestrwyd amryw o rai eraill yn 'Sylwadau ar Sieffre o Fynwy a'r *Historia Regum Britanniae*', *Llên Cymru*, XII, 127-45, td. 135, n. 39: ychwaneger Christopher Brooke, 'Geoffrey of Monmouth as a historian', C. N. L. Brooke, et al. *Church and Government in the Middle Ages*, Cambridge, 1976, 77-91.

<sup>6</sup>Trafodir y cyfeiriadau hyn yn fanylach yn yr erthygl 'Ymagweddau . . .' uchod.

<sup>7</sup>Gw. *Brut Dingestow*, xxvi—xxviii.

<sup>8</sup>Gw. S. Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints*, London, 1913, IV, 296-305, lle y rhestrir ei eglwysi ac y nodir enwau lleoedd megis Bryn Tysilio, Maen Tysilio (Llansilin), Ffynnon Nant Dysilio (Croesoswallt), Pistill Tysilio (Y Trallwng); E. G. Bowen, *The Settlements of the Celtic Saints in Wales*, Cardiff, 1954, 78-80.

<sup>9</sup>A. O. H. Jarman, 'Lewis Morris a Brut Tysilio', *Llên Cymru*, II, 160-83.

<sup>10</sup>ibid, 174, 180.

<sup>11</sup>ibid, 181.

<sup>12</sup>ibid., 175.

<sup>13</sup>Peter Roberts, *The Chronicle of the Kings of Britain*, London, 1811, xiii.

<sup>14</sup>Geiriau William Owen-Pughe; gw. *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, XXIV, 133, n. 2.

<sup>15</sup>San-Marte, *Gottfried's von Monmouth Historia Regum Britanniae . . . und Brut Tysilio, altwälsche Chronik in deutscher Uebersetzung*, Halle, 1854. Am y modd y camarweiniwyd San-Marte ac eraill gan destun cyfansawdd Peter Roberts a chymhlethu pellach yr ail argraffiad, Manly Pope, *A History of the kings of ancient Britain*, London, 1862, gw. Acton Griscom, *The Historia Regum Britanniae of Geoffrey of Monmouth*, New York, 1929, 155-60.

<sup>16</sup>Friedrich Zarncke, 'Über das Verhältniss des Brut y Tysilio zu Gottfried's Historia Regum Britanniae', *Jahrbuch für Romanische und Englische Literatur*, V, 249-64, Bernhard ten Brink, 'Wace und Galfrid von



Monmouth', *ibid* IX, 241-70, R. H. Fletcher, *The Arthurian Material in the Chronicles*, New York, 1906, 117-9.

<sup>17</sup>W. M. F. Petrie, 'Neglected British History', *Proceedings of the British Academy*, 1917-18, 251-78.

<sup>18</sup>*ibid.*, 252-3.

<sup>19</sup>R. W. Chambers, 'Geoffrey of Monmouth and the Brut as sources of early British History', *History*, n.s. III, 225-8, IV, 34-45, Felix Liebermann, 'Die angebliche Entdeckung einer brythonischen Geschichte aus Römerzeit; Galfrid von Monmouth und Tysilio', *Archiv für das Studium der Neueren Sprachen und Literaturen*, n.s. XLIV, 31-6.

<sup>20</sup>Cf. ten Brink, art.cit. sy'n dadlau fod nifer o wahaniaethau rhwng Tysilio a Sieffre i'w hesbonio fel ffrwyth camddeall y Lladin gan gyfieithydd Cymraeg.

<sup>21</sup>Gw. n. <sup>15</sup> uchod.

<sup>22</sup>op. cit., 104, 585.

<sup>23</sup>Ar hyn gw. *Studia Celtica*, XII/XIII, 147-57, lle'r olrheinir astudiaethau diweddar ar y brutiau.

<sup>24</sup>Ceir awgrym i'r cyfeiriad hwnnw gan Zarncke, art. cit., 255, ac yn fwy pendant gan Chambers, art. cit., 227, 'Were it not for this claim to be a copy of the actual book of Archdeacon Walter, the *Brut Tysilio* would merely strike the reader as being yet another of the numerous versions of Geoffrey's *History*'.

<sup>25</sup>Un o'r ychydig a wnaeth hyn oedd Edmond Faral, *Romania*, LV, 510-8, er bod ei gasgliadau'n anghywir.

<sup>26</sup>Thomas Jones, *Brenhinedd y Saeson or the Kings of the Saxons*, Cardiff, 1971, xvi-vii.

<sup>27</sup>Gw. e.e., C. S. Lewis, *Studies in Medieval and Renaissance Literature*, Cambridge, 1966, 36-8. Cf. H. J. Chaytor, *From script to print*, Cambridge, 1945, 89, n.1, 'Translator in this connection has a wider meaning than our "translate"'. It may denote compilation, adaptation, paraphrase, etc., in short, transference, as the original word implies'.

<sup>28</sup>'Prophecy, Poetry, and Politics in Medieval and Tudor Wales', yn H. Hearder and H. R. Loyn, *British Government and Administration*, Cardiff, 1974, 104-16.

<sup>29</sup>'Ac oe barn wynt [Hywel Fychan a'i noddwr Hopcyn ap Tomas] anuolyannussaf or tywysogyon uchot y llywyassant gwrtheyrn a medrawt. Kanys oc eu brat wynt ae twyll ac eu kyghor wynt y distrywynt y tywysogyon arbennickaf. yr hynn a gwynawd eu hetivedyon gwedy wynt yr hynny hyt hediw. y rei yssyd yn godef poen ac achenoctit ac alltuded yn eu ganedic dayar'. Gw. B. F. Roberts, 'Un o lawysgrifau Hopcyn ap Tomas o Ynys Dawy', *Bwletin y Burdd Gwybodau Celtaidd*, XXII, 223-8, a cf. R. R. Davies yn *Trafodion y Cymmrodorion*, 1974 a 1975, 46-7.

<sup>30</sup>Llawysgrif Peniarth 50, 87-9, 'Ryw ewyllus a syrthawdd ynof y adnabot ystoriaeu y brytannyeit. A gwedy kaffel o hanwyf gyuarwyddyt mywn amryfaylyon lyfreu o awdyrdawt. a gwybot y hanuot o eglurddawn vrenhinawl geneddyl o lin dardan . . . , yn gyntaf mawr hoffi orugum dianwadalrwydd fydd y bobyl honn . . . yr ynys honn oedd yn llettya holl brouadwy milwryaeth gyda mawrddawn vrddas ac anvesurawl haelyoni ay mawr enwawc wleddeu aergrwydr mal llewot. enillwyr y torneimant.

kwympwyr y bydinoedd. gwascarwyr y toruoedd. briwyr y kadoedd. buddugolyaf yn ryuel. y rei a ossodawdd oy ragorawl rymusfyrf vilwryaeth ynys prydein yn vrenhines ar ddeg teyrnas ar vgeint. Pan ddarlleis yn ol hynny ryddaruot gwrthladd y bobl vuddugawl honn o logor y diffathwch kymry gwedy kolli y teyrnedd ay gwiwgwbl vrddas ay bot heddiw yn geith dan saeson gwedy poeni y tywysogyon drwy greulawn anghew. Ac arwan heb pennadur arnaddun mewn anueidrawl ammarch. a thra gormodd eisseu ac [?] noethi. Och arglwydd dduw bot tywysoges y teyrnassoedd yn drethawl. a bot arglwyddes yr holl bobloedd yn weddw ay phlant yn ymddiueit heb pennadur. Am hynn ryw anorthrwm heint mal temystyl a syrthawdd yn vynghallonn am clwyuaw oruc y trystyt hwnn mal na allei ddim nyr holl vyt vy llawenhau . . . Achos hynny keissaw llyfreu darogannawl orugum a chwedy y kaffel mal bytheuat buanllym llawn ymddeith krwydraw a wneuthum ac yno y keueis vniawnlwybyr yn teruynu am y bobl yssydd yn arwan ay [?] yn amlwc o gwbl. A phy vodd y kollei y saeson yr ynys am y pechawt ay kamweddoedd ay tra ac am y drycfydd yn lladd y creuyddwyr ac yn diva r eglwysseu. Or achos y bu haws gennyf gredu troi vnwaith o gwmpasddwbl rot y dyghetuen y rann isaf yn uchaf a gossot y geneddll hon ny gogonedus ystat ay breinyawl vrddas gan gennat yr hollgyuoethawc dduw or nef'.

<sup>31</sup>Enid Roberts, *Y Beirdd a'u Noddwyr ym Maelor*, Darlith a draddodwyd yn . . . Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Wrecsam a'r Cylch 1977, [Bangor, 1978], 20. Cf. Eurys I. Rowlands, *Poems of the Cywyddwyr*, Dublin, 1976, xvi-viii.

<sup>32</sup>Gw. y drafodaeth ar *Ystoria, Bwletin y Burdd Gwybodau Celtaidd*, XXVI, 13-20, am y cyfeiriadau hyn. Ceir nifer o destunau cryno catalogaidd megis 'Y pedwar brenin ar hugain a farnwyd yn gadarnaf', sy'n rhan o'r deunydd a geid yn ysgolion y beirdd: gw. G. J. Williams ac E. J. Jones, *Gramadegau'r Penceirddiaid*, Caerdydd, 1934, xci.

<sup>33</sup>Gw. W. R. Trimble, 'Early Tudor Historiography, 1485-1548', *Journal of the History of Ideas*, XI, 30-41, C. L. Kingsford, *English Historical Literature in the Fifteenth Century*, Oxford, 1913, F. J. Levy, *Tudor Historical Thought*, Huntingdon Library, 1967.

<sup>34</sup>'Celtic-Latin texts in northern England, c. 1150-c. 1250', *Celtica*, XII, 19-49.

<sup>35</sup>Ar hanes yr abaty Sistersaidd hwn gw. G. Vernon Price, *Valle Crucis Abbey*, Liverpool, 1952. Ar ddiddordeb Urdd y Sistersiaid mewn hanes gw. C. R. Cheney, *Medieval Texts and Studies*, Oxford, 1973, 339-40, sy'n sôn am 'strong sense of history and regional patriotism among English Cistercians', geiriau pwysig wrth geisio deall llawer o gefndir ysgrifennu hanes yng Nghymru'r Oesoedd Canol.

<sup>36</sup>Thomas Jones, *Brenhinedd y Saeson*, xxix.

<sup>37</sup>Enid Roberts, op. cit., 1. Mae'r ddarlith hon yn ddisgrifiad trylwyr o'r diwylliant hwn yn y XV ganrif. Ar wleidyddiaeth y fro hon gw. J. Gwynfor Jones, 'Government and the Welsh Community: the North-East Borderland in the Fifteenth Century', Hearder and Loyn, op. cit., 55-68. Tra pherthnasol yw J. Beverley Smith, 'Gwleidyddiaeth a diwylliant cenedl, 1282-1400', *Efrydiau Athronyddol*, XXXVIII, 55-74, yn arbennig 65-8.

